

DE DDWYRAIN ASIA!

45 MUNUD-LAWR



- Defnyddio mapiau o'r byd, atlasau a globau i adnabod y Deyrnas Unedig, yn ogystal â'r gwledydd, cyfandiroedd a chefnforoedd sy'n cael eu hastudio yn y cyfnod allweddol yma.
- Defnyddio cyfeiriadau cwmpawd syml (Gogledd, De, Dwyrain a Gorllewin) ac iaith leoliadol a chyfeiriadol [er enghraifft, pell ac agos; chwith a dde], i ddisgrifio lleoliad nodweddion a llwybrau ar fap.
- Lleoli gwledydd y byd, gan ddefnyddio mapiau i ganolbwyntio ar Ewrop (gan gynnwys lleoliad Rwsia) a Gogledd a De America, gan ganolbwyntio ar eu rhanbarthau amgylcheddol, nodweddion allweddol ffisegol a dynol, gwledydd a dinasoedd mawr.
- Deall a chymhwyso egwyddorion diet iach ac amrywiol.

AMCAN DYSGU

- Cyflwyniad pwynt pwêr ar gyfer y wers.
- Casgliad o flodfresych, yn cynnwys math Romanesco.
- Chwyddwydr.



ADNODDAU

1. Os yw'n berthnasol, ailadroddwch y wers flaenorol a phwyntiau daearyddol, gan ofyn i'r plant rannu rhywfaint o'r wybodaeth a ddysgwyd ganddynt a lleoli'r ardal ar fap o'r byd.
2. Ble chi'n meddwl mae hwn?
3. Beth ydych chi'n gwybod yn barod am Dde Dwyrain Asia?
4. Gofynnwch i'r plant leoli Asia ac yna De Dwyrain Asia ar fap y byd. Defnyddio iaith leoliadol i ddisgrifio lleoliad gwahanol wledydd.
5. Gofynnwch i'r plant ddefnyddio atlas i enwi'r gwahanol foroedd a chefnforoedd yn yr ardal hon.
6. Siaradwch â'r plant am y math o fwyd y mae De Dwyrain Asia yn adnabyddus amdano:

Mae llawer o wahanol ddiwylliannau wedi dylanwadu ar fwyd De-ddwyrain Asia dros y blynnyddoedd. Mae pwyslais cryf ar goginio Tsieineaidd ac Indiaidd ond hefyd wedi meddiannaeth Ffrainc yn Fietnam a Cambodia.

Mae coginio bwyd fel arfer yn gyflym ac yn effeithlon - ychydig iawn o ffyrnau sydd yn Ne Dwyrain Asia. Mae hyn yn golygu bod llysiau fel arfer yn cael eu torri'n ddarnau bach fel y bydd y bwyd yn coginio'n gyflym iawn. Mae'r rhan fwyaf o'r bwyd yn cael ei goginio drwy blansio'n gyflym (rhoi rhywbeth mewn dŵr berwedig yn gyflym), tro-ffrio / stir-fry (bwyd yn cael ei goginio'n gyflym mewn wok/padell dros wres uchel) a'i stemio (lle mae'r bwyd wedi'i goginio yn y stêm uwchben y dŵr berw).

Mae llawer o'r cynhwysion yn debyg ar draws y rhan fwyaf o'r rhanbarth ond mae'n newid ychydig i weddu blas pob diwylliant.

BRASLUN Y WERS

PARHAU

Mae prydau poblogaidd yn Ne-ddwyrain Asia yn cynnwys reis, pysgod, llysiau, ffrwythau a sbeisys. Blasau cyffredin yn y bwyd yw sinsir, pupur, pupur tsili, winwns, garlleg, saws soi, saws pysgod yn ogystal â tamarind a leim. Mae cyfuniadau unigryw o flas melys a sur, neu boeth a sur, poeth a melys, i gyd yn gyffredin mewn llawer o'r rhanbarthau. Mae llysiau poblogaidd yn cynnwys tatws melys, corn melys, taro, tapioca, codlysiau, a dail llawer o blanhigion gwyrdd.

Mae gan flodfresych Romanesco strwythur ffracsiynol ryfeddol o'r enw Fibonacci neu 'The Golden Spiral fractal'. Y patrwm hwn yw lle mae'r rhif nesaf yn y dilyniant yn dod trwy adio'r ddau rif o'i flaen.

Mae hyn yn rhoi 0, 1, 1, 2, 3, 5, 8, 13, ac ati. Ar flodfresych nodweddiadol, gallwch ddisgwyl gweld pum troellen yn mynd gyda'r cloc, ac wyth yn erbyn y cloc, neu i'r gwrthwyneb.

Gweithgaredd

1. Defnyddiwch y patrwm sydd ar y blodfresych i ddechrau trafodaeth ar batrymau mewn mathemateg a hefyd ymestyn hyn i enghreifftiau eraill o'r Droellen Fibonacci mewn natur.
2. Dangoswch sut i ddefnyddio chwyddwydr.
3. Rhowch flodfresych i'r plant ei archwilio.
4. Gofynnwch iddyn nhw farcio ar y blodfresych ble mae'r troellau.
5. Gallant hefyd archwilio'r patrymau hyn mewn brocoli, pennau blodau'r haul, gwe pry cop, cymylau, cregyn, dail a rhedyn.

Llenwi'r wybodaeth o'r wers ar y map

O'r wybodaeth sydd wedi cael ei rannu yn y wers heddiw, cwblhewch y blwch ar fap y byd y plant sy'n berthnasol i Dde Dwyrain Asia.

BRASLUN Y WERS

Mae hwn yn weithgaredd gwyh i ymchwilio mwy adref a dod o hyd i batrymau Fibonacci eraill ym myd natur.

GWEITHGAREDDAU PELLACH / GWAITH CARTREF



AM FWY O ADNODDAU ADDYSG ARBENNIG EWCH I:

EAT THEM TO DEFEAT THEM.COM

© Veg Power CIC 2024

**DE DDWYRAIN
ASIA**

